# CYNGOR CYMUNED BUAN

## Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor, gynhaliwyd Nos Iau, 9fed Ionawr 2025

## Yng Nghlwb Chwaraeon Pwllheli am 7.30 yh

**Presennol:**

**Cynghorwyr**

Hughie Williams (Cadeirydd)

Catherine Hughes

Phil Roberts

Wynne Davies

Cynghorydd Sirol Anwen Davies

Nia Jane Owen-Midwood (Clerc)

**Ymddiheuriadau**
Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhys Jones (Is-gadeirydd), Dafydd Ll Williams, Tesni Jones, Nia M Jones, Gareth Roberts a Einir Lewis.

**Dymunodd y Cadeirydd Flwyddyn Newydd Dda i bawb**.

**Cadarnhau cofnodion cyfarfod Rhagfyr**
Cadarnhawyd bod cofnodion 19/12/24 yn gywir gan y Cynghorydd Phil Roberts, ac fe'i heilwyd gan y Cynghorydd Sirol Anwen Davies.

**Materion yn codi**

**Llythyr gan Glwb Ffermwyr Ieuainc Godre'r Eifl – Cyfraniad ariannol**
Trafodwyd y llythyr a penderfynwyd rhoi cyfraniad ariannol o £200.

**Hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad**
Trafodwyd yr hyfforddiant ar y côd ymddygiad, a nodwyd y Clerc ei bod wedi derbyn ebost gan Unllais Cymru yn cynnig byrsari i Gynghorau Cymuned i fynychu'r hyfforddiant yma.

Cytunwyd y byddai HW a TJ yn cwblhau'r hyfforddiant Modiwl 9 – Côd Ymddygiad, â'r Clerc i gwblhau Modiwl 5 – Cyfarfod y Cyngor. Cytunwyd i'r Clerc yrru dyddiadau'r hyfforddiant ymlaen er mwyn iddynt ddewis eu dyddiadau, ac i'r Clerc wneud trefniadau ar eu rhan.

**Gohebiaeth**

**Gosod Cofeb ger safle'r Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan**
Nodwyd bod y Clerc wedi llythyru'r achwynydd a bu i'r Clerc ddarllen yr ymateb i'r Cynghorwyr. Nid oes unrhyw ohebiaeth na chyswllt wedi bod ers hynny.

Nodwyd y Cadeirydd ei fod wedi cysylltu gyda MT dros gyfnod y Nadolig, ac mae'r lechen bellach wedi ei chludo i Weithdy'r Saer Maen er mwyn cael rhoi'r ysgrifen arni. Cytunwyd y Cadeirydd i gysylltu'n ôl ag ef yn fuan, er mwyn cael diweddariad ar y gwaith a chael ei gosod yn ei lle.

**Gwobrau Cenedlaethol Un Llais Cymru 2025**
Trafodwyd yr ohebiaeth cenedlaethol gan Un Llais Cymru 2025 ynghlyn a'r Gwobrwyon ar gyfer Cynghorau Cymuned Cymru. Cytunwyd y byddem yn cyflwyno dwy ffurflen gais ar gyfer Cynllun Cae Chwarae, Rhydyclafdy a'r Garreg Gofeb ym Moduan, ar gyfer sawl categori addas.

Rhannodd y Clerc yr adroddiad Cae Chwarae a lluniau o'r Cynllun hefo'r Cynghorwyr, ac roedd pawb yn hapus i'r Clerc eu cyflwyno mor fuan a phosib.

Gofynnwyd i'r Clerc yrru'r adroddiad y Garreg Gofeb a'r lluniau ymlaen i'r Cadeirydd er mwyn iddo fwrw golwg drostynt.

**Cais Cynllunio**
Ni wnaeth unrhyw Gynghorydd ddatgan diddordeb i Gais Cynllunio.

C24/0704/33/LL – Cais ôl-weithredol yn ymwneud a chodi adeilad i gadw hofrennydd, creu helipad, ac estyniadau i'r tŷ – Ynys, Edern, Pwllheli, Gwynedd. LL53 8UA. Nid oes unrhyw ddiweddariad o ran y cais cynllunio yma.

**Materion ariannol**
**Cysoniad banc o ddyddiad:**
04/11/24 – 03/12/24 - £5,447.29c
04/12/24 – 03/01/25 - £2,856.61c

Derbyniwyd Datganiad Banc Mis Rhagfyr 2024 gan y Cynghorwyr.

Yn ystod cyfarfod 09/01/25, cafodd 6 siec eu harwyddo gan y Cynghorydd Catherine Hughes a'r Cynghorydd Phil Roberts.

| | | |
|---|---|---|
| Siec Rhif 200846 | Urdd Gobaith Cymru – cyfraniad ariannol | £50.00 |
| Siec Rhif 200847 | Cyflog y Clerc (Mis 10) | £204.80c |
| Siec Rhif 200848 | Costau teithio'r Clerc | £4.68c |
| Siec Rhif 200849 | Cyllid a Thollau (Cyllid a Thollau) | £51.20c |

| | | |
|---|---|---|
| Siec Rhif 200850 | Hurio Ystafell – Clwb Chwaraeon Pwllheli | £20.00 |
| Siec Rhif 200851 | Clwb Ffermwyr Ieuaince Godre'r Eifl | £200.0 |

**<u>Praesept 2025/2026</u>**
Trafodwyd Praesept 2025/2026, a phenderfynwyd ei gadw'n £4,500.00. Clerc i gwblhau'r gwaith papur a'i sganio i Elin Wyn Hughes o'r Adran Gyllid, Cyngor Gwynedd.

**<u>Unrhyw fater arall</u>**
**<u>Plac i'r Fainc ym Moduan</u>**
Nodwyd bod y Cadeirydd wedi cysylltu gyda MT dros gyfnod y Nadolig, ac mae'n y broses o wneud y plac.

**<u>Cwblhau Archwiliad – Archwilio Cymru</u>**
Nodwyd y Clerc nad oedd wedi cael unrhyw gyswllt gyda aelodau o staff Archwilio Cymru yn dilyn uwchlwytho ein gwaith cyfrifon iddynt. Nid oes unrhyw ddiweddariad o safbwynt yr archwiliad.

**<u>Cysylltu â'r Adran Briffyrdd</u>**
Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Adran Briffyrdd:

- Trefnu bod y Sgubwr Ffordd yn dod i bentref Rhydyclafdy er mwyn glanhau'r ffyrdd o gwmpas y pentref, nid oes neb wedi bod hyd yma.
- Wrth ddreifio o gyfeiriad Rhydyclafdy at Efailnewydd mae Bont Rhydhir, nodwyd bod twll yn y bont i'r dŵr fynd drwadd, ond ar hyn o bryd mae'r twll wedi blocio, ac mae'r dŵr yn llifo i'r lôn. Ambell Gynghorydd yn bryderus y byddai'r dŵr yn gallu rhewi, fyddai'n gallu creu damweiniau a peryglu bywydau.
- Nodwyd bod angen llnau'r gwterydd o Plas Boduan, hyd at Gylchfan Bryncynan. Nifer helaeth ohonynt wedi blocio.
- **<u>Bu i'r Cynghorwyr ddatgan eu pryder ynghlyn a choed sy'n gorwedd drosodd i'r lôn ger y Goedwig dragwyddol (Eternal Forest) ym Moduan. Roedd ganddynt ofn i rai ohonynt ddisgyn i'r lôn.</u>**

Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda Lord Newborough a Light Source er mwyn dilyn i fynnu ar eu cyfraniadau ariannol blynyddol i'r Cyngor Cymuned.

Cytunwyd i drafod cyflog y clerc yn y cyfarfod nesaf 13/02/25 fel eitem caeedig.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf : 13/02/25 yng Nghlwb Chwaraeon Pwllheli, Efailnewydd am 7.30yh.**